



Effaith Economaidd BT Group plc yng Nghymru



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3	4	BT Group plc yng Nghymru	14
2	Yr adroddiad	6	5	Atodiadau technegol	21
3	Effaith economaidd BT Group plc yn y DU	8			
	Effeithiau economaidd	11			
	Cyfanswm effaith yn y DU	13			

Mae Hatch Urban Solutions yn darparu dadansoddiadau economaidd grymus o effeithiau economaidd a chymdeithasol ar gyfer corfforaethau, cyrff masnachol, buddsoddiadau mawr, polisïau a dirwasgiadau economaidd. Rydym yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig a gweddill y byd.

Manylion pellach yn: [Hatch.com/urbansolutions](https://hatch.com/urbansolutions). Er gwybodaeth: Cydsoddwyd tîm Hatch Urban Solutions yn y Deyrnas Unedig â Regeneris Consulting yn 2018.

1

Cyflwyniad

1 Cyflwyniad

Mae BT yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi economi a chymdeithas y wlad gyfan. Ein nod yw cysylltu er lles ein cwsmeriaid, cydweithwyr a'r wlad, gyda'n pobl a rhwydweithiau yn cefnogi bron pob rhan o'n bywydau ar draws y genedl. Rydym yn credu'n gryf ein bod yma i ddarparu nid cysylltedd, fel y cyfryw, ond y buddion bydd hynny'n darparu ar gyfer pobl.

Yn sicr, mae argyfwng coronafeirws wedi tanlinellu rôl flaenllaw ein cwmni ym maes telathrebu, gyda heriau'r pandemig yn pwysleisio swyddogaeth hanfodol BT wrth gefnogi teuluoedd, busnesau a chymunedau ar draws y wlad. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi dysgu sut i ddefnyddio technoleg er helpu i ddiogelu pobl a darparu gwasanaethau hyd yn oed gwell ar gyfer y cyhoedd. Roeddem yn falch o gysylltu ysbytai maes newydd y gwasanaeth iechyd ar draws y wlad a helpu disgyblion i ddysgu yn eu cartrefi wrth ymateb i gais i gael miloedd o ddyfeisiadau i bob awdurdod lleol yn gynnar yn y cyfnod clo.

Erbyn hyn mae dros 95% o'r Deyrnas Unedig yn gallu cael band eang uwchgyflym. Rydym wedi ymrwymo i ledu band eang ffeibr cyflawn ar draws y Deyrnas Unedig ac, o gael yr amodau ariannol, rheoleiddiol a deddfwriaethol iawn, rydym yn barod i wneud y buddsoddiad mwyaf mewn seilwaith cyfathrebu am genhedlaeth. Wrth gyfuno hynny â rhwydwaith 5G symudol EE, byddwn yn darparu seilwaith digidol er cysylltu miliynau o bobl a helpu i yrru tyfiant economaidd y dyfodol. Yn ogystal â'n rhwydweithiau symudol a band eang, ein rhwydwaith wifi cyhoeddus yw'r mwyaf estynedig yn y Deyrnas Unedig a'n tasg yn awr yw cyfuno'r tri rhwydwaith i greu un plattfform digidol cydgyfeiriedig.

Rydym wedi gweld pŵer technolegau arloesol a'r rhwydwaith cydgyfeiriedig gorau mewn profion ym meysydd gofal iechyd ac addysg. Wrth gydweithio â'n partneriaid, rydym yn defnyddio technolegau newydd er trin cleifion o bellter ac yn helpu i ddatblygu ysbyty craff y dyfodol. Fel cwmni, rydym yn un o'r buddsoddwyr mwyaf mewn arloesi yn y Deyrnas Unedig, gan fuddsoddi £662m yn 2019/20. Mae ein gwaith arloesol yn gyfrifol am lawer o'r datblygiadau sydd wedi trawsnewid ein byd digidol.

Mae adroddiad a gomisiynwyd gan BT yn dangos sut mae technolegau craff yn gallu trawsnewid cymunedau gwledig. Wrth ganolbwyntio ar amaeth a thwristiaeth yn y Gymru wledig, mae adroddiad Smart Rural yn dangos sut allai technolegau fel 'Internet of Things' helpu'r ardaloedd hynny i ffynnu. Ym maes amaeth, mae profion i gysylltu synwryddion a dyfeisiadau i rwydweithiau yn dangos ffermwyr sut i olrhain a rheoli stoc o bell, gan ostwng costau a gwella effeithiolrwydd. Ac mae'r diwydiant twristiaeth wedi chwyldroi wrth ddefnyddio technolegau digidol, gyda ffonau craff, gwasanaethau mapio ac apps helaethu realiti yn trawsnewid profiadau ymwelwyr. Rydym hefyd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ymchwilio sut allai 5G gefnogi cymunedau gwledig yn y sectorau pwysig hyn.



Nick Speed
Cyfarwyddwr Cymru
a De Orllewin Lloegr
BT Group

Rydym yn elfen allweddol o gymunedau ar draws y Deyrnas Unedig ac am helpu pobl i ddefnyddio grym technoleg er diwallu anghenion a gwireddu eu potensial. Lansiwyd ein rhaglen Sgiliau Yfory yn 2019/20 er mwyn helpu i wella sgiliau digidol 10 miliwn o bobl erbyn 2025. Mae'r rhaglen yn cynnig adnoddau di-dâl i blant ysgol, rhieni a phobl yn chwilio am waith. Wrth gydnabod pa mor bwysig yw busnesau bach i'r economi, byddwn yn darparu cymorth sgiliau digidol ar gyfer 1 miliwn o fusnesau ac eisoes wedi helpu 1,000 o unigolion bregus i gysylltu â'u teuluoedd a ffrindiau wrth ddarparu dyfeisiadau addas.

Rydym yn sylfaen bartner o linell gymorth UK Modern Slavery a Tech Against Trafficking. Yng nghyd-destun yr her newid hinsawdd, bydd ein rhwydweithiau technoleg a chyfathrebu'n chwarae rôl enfawr wrth ddarparu atebion arloesol a chynnal y newidiadau sylfaenol angenrheidiol er creu economi carbon niwtral net. Yn y Deyrnas Unedig, daw 100% o'n trydan uniongyrchol o gyflenwyr ynni adnewyddadwy a 50% o'n cyflenwadau pŵer yn dod o naw tyrbin ar safle Mynydd Bwllfa, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf. Rydym hefyd yn cydweithio ag eraill er trosi ein fflyd cerbydau i drydan ac wedi gosod pwyntiau gwefru trydan yn ein swyddfeydd ym Merthyr Tudful ac Abertawe.

Mae gan BT bresenoldeb sylweddol ar hyd a lled Cymru. Ni oedd y corff sector preifat cyntaf i arwyddo rhaglen 'Cymraeg Gwaith', rhaglen i gryfhau sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle a ddyfeisiwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ogystal, mae BT wedi buddsoddi'n helaeth er mwyn darparu gwasanaethau Cymraeg ac ers 1994 wedi dilyn polisi dwyieithog gwirfoddol er dangos ein hymrwymiad i'r iaith a chymunedau ar draws y wlad.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn dadansoddi cyfraniad economaidd BT Group ar draws y wlad, gan ddangos ein heffaith arwyddocaol iawn ar yr economi. Rydym yn cefnogi cyflogaeth ym mhob rhan o'r wlad, yn uniongyrchol drwy ein gweithlu ac yn anuniongyrchol drwy ein cadwyni cyflenwi estynedig, wrth gaffaelio a phrynu nwyddau o fewn economïau lleol. Yn y cyfnod 2019/20, amcangyfrifwyd y gwerth ychwanegol gros (GVA - Gross Value Added) i economi Cymru, wrth gyfuno effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac anwythol, i fod yn werth £970 miliwn.



Nick Speed
Rhagfyr 2020

2

Yr adroddiad

2 Yr adroddiad

Paratowyd Adroddiad o Effaith Economaidd 2020 yn annibynnol gan Hatch Regeneris, gan ddefnyddio data ar gyfer BT Group.

Mae'r amcangyfrifon yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau BT Group plc yn y DU yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20. Mae BT Group plc yn cynnwys yr holl is-gwmnïau sy'n eiddo iddo, gan gynnwys Openreach Cyfyngedig ac EE (sydd bellach yn rhan o BT Consumer)

Rydym yn falch o wneud cyfraniad sylweddol at drethi'r Deyrnas Unedig. Yn ôl One Hundred Group 2019 Total Tax Contribution Survey roeddem yn chweched o blith prif gyfranwyr treth y DU. Nid yw'r adroddiad hwn wedi asesu effaith ein cyfraniadau treth.

Manylion pellach am weithgareddau BT Group yn Adroddiad Blynyddol 2020 BT Group plc ac Adroddiad Effeithiau Digidol & Cynladwyedd 2019/20.

Mae'r cyfrifiadau effaith yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a Chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ar gyfer gwerthuso, ac maent yn gyson â chyfrifon cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae manylion ein hymagwedd i'w gweld yn Atodiad 5.

Sylwch y talgrynnwyd ffigurau'r effaith economaidd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn i dri ffigur ystyrlon. Mae hyn yn golygu eu bod wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr fel bo'n briodol ac, o ganlyniad, mae'n bosibl na fyddant yn cyfleu'r union gyfansymiau a gyflwynir.

Adroddiad o effaith economaidd 2020

Mae'r astudiaeth hon yn dangos cyfraniad economaidd BT Group i economi genedlaethol y DU ac i economïau rhanbarthol o ran swyddi, allbwn a'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC). Mae'r adroddiad yn esbonio nifer o effeithiau gweithgareddau BT Group:

Effaith uniongyrchol: pobl a gyflogir yn uniongyrchol gan BT Group (gan gynnwys gweithwyr contractwyr) sy'n cael cyflogau a thaliadau.

Effaith anuniongyrchol: incwm a chyflogaeth a grëir gyda chyflenwyr o ganlyniad i wariant BT Group ar nwyddau a gwasanaethau.

Effaith a ysgogir: caiff incwm pellach a chyflogaeth a gynhyrchir, fel cyflogau a grëir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, eu gwario o fewn yr economi.

3

Effaith economaidd BT Group
yn y Deyrnas Unedig


3 Effaith economaidd BT Group yn y Deyrnas Unedig

Mae'r ffigurau isod yn dangos nifer y gweithwyr ym mhob rhanbarth yn Lloegr ac yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
Sylwer: Talgrynnwyd y ffigurau i 3 ffigwr ystyrllon.

	Gweithio	Byw	Cyfanswm incwm £m	Gwariant ar gyflenwyr £m	Cyfanswm GYC uniongyrchol £m
Llundain a De Lloegr	24,300	23,100	992	5,620	3,220
Llundain	14,500	12,200	634	3,140	2,050
De Ddwyrain Lloegr	9,780	10,900	359	2,480	1,160
Canolbarth a dwyrain Lloegr	19,500	20,500	751	2,270	2,440
Dwyrain Lloegr	8,950	9,580	377	1,510	1,220
Dwyrain Canolbarth Lloegr	4,490	4,990	151	130	489
Gorllewin Canolbarth Lloegr	6,070	5,940	224	636	725
Gogledd Lloegr	25,700	25,500	813	876	2,630
Gogledd Ddwyrain Lloegr	9,290	9,280	262	41	849
Gogledd Orllewin Lloegr	9,720	9,690	322	410	1,040
Swydd Efrog a'r Humber	6,660	6,550	229	424	741
De Orllewin Lloegr	8,560	8,350	321	634	1,040
Yr Alban	7,440	7,480	254	167	825
Cymru	4,600	5,060	146	340	472
Gogledd Iwerddon	3,340	3,350	115	155	373

Ffynhonnell: Hatch

3 Pwyntiau allweddol



Ledled y Deyrnas Unedig yn 2019/20

Mae **82,800 o weithwyr** yn gweithio'n uniongyrchol i BT Group, a 12,300 o contractwyr (Cyfwerth ag Amser Llawn – CALI)

Caiff cyfanswm o **300,000 o swyddi CALI** eu cefnogi (gan gynnwys effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir)

Cyfanswm incwm gweithwyr BT Group yw **£3.4 biliwn** (gan gynnwys contractwyr)

Gwariwyd **£10.1 biliwn** ar gyflenwyr yn y DU

£24 biliwn yw cyfanswm effaith y GYC sy'n gysylltiedig â gweithgareddau BT Group (gan gynnwys effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau a ysgogir)

Roedd BT Group yn cyflogi'n uniongyrchol **1 ym mhob 230 o weithwyr** yn y sector preifat ledled y DU, ac **1 ym mhob 12** yn y sector TG a Chyfathrebu

Creodd BT Group **£1 ym mhob £165** o GYC yn y DU

O ganlyniad i effaith economaidd lawn BT Group, cyfrannodd y cwmni **£1 ym mhob £75** o GYC i economi'r DU ac **1 ym mhob 90 o weithwyr** sy'n gweithio yn economi'r DU

3

Effeithiau economaidd


Effaith uniongyrchol

Mae BT Group yn cyflogi 82,800 person yn uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig, ac yn cyflogi 10,600 eraill fel contractwyr. Mae'r gweithwyr hyn yn cynhyrchu £3.4 biliwn yn nhermau cyflogau a gwariant.

Effaith caffael (anuniongyrchol)

Gwariodd BT Group £10.1 biliwn gyda chyflenwyr yn y Deyrnas Unedig yn 2019/20. Arweiniodd at fuddion sylweddol i economi'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys buddion i gadwyni cyflenwi, sy'n cynyddu cyflogaeth a gweithgynhyrchu. Crynhoir isod.

Gwariant Cadwyni Cyflenwi BT Group yn y Deyrnas Unedig = £10.1 biliwn



Ffigwr 3-1: Effeithiau anuniongyrchol (ar y gadwyn gyflenwi) yn y DU


Ffynhonnell: Hatch

3

Effaith gwariant gweithwyr a chyflenwyr BT Group (a ysgogir)

Cafodd gweithwyr BT Group a'u contractwyr yn y DU gwerth oddeutu £3.4 biliwn o gyflogau yn 2019/20 cyn treth. Yn ei dro, creodd gwariant y gweithwyr hyn, y contractwyr a'r rheiny a oedd yn gweithio i gwmnïau o fewn cadwyn gyflenwi BT Group fwy o gyflogaeth ac allbwn mewn diwydiannau defnyddwyr. Drwy'r sgil-ffeithiau hyn, cafwyd mwy o swyddi a throsiant pellach yn BT Group fel y dangosir isod.

Cyflogau gweithwyr a chontractwyr BT Group yn y Deyrnas Unedig = **£3.4 biliwn**




Ffigwr 3-2: Effeithiau a ysgogir (gwariant ar gyflogau) yn y DU

Ffynhonnell: Hatch

3

Yr effaith gyffredinol yn y DU

Mae cyfuno effaith uniongyrchol a chyflogaeth BT Group â'r effaith anuniongyrchol ar y gadwyn gyflenwi ac effaith gwariant ar gyflog a ysgogir yn creu cyfanswm effaith gweithrediadau BT Group yn y DU yn 2019/20. Gweler crynodeb o hyn yn y tabl isod.



Ffigwr 3-3: Cyfanswm effaith BT Group plc yn y DU

Ffynhonnell: Hatch

4

BT Group plc yng Nghymru

4 Cymru



Cymru gyfan yn 2019/20

Mae **5,060 o weithwyr BT Group** yn byw yng Nghymru (cyfwerth ag amser llawn)

Mae **4,600 o weithwyr BT Group** yn gweithio yng Nghymru (cyfwerth ag amser llawn)

£146 miliwn yw cyfanswm incwm gweithwyr BT Group sy'n gweithio yng Nghymru

Caiff **£340 miliwn** ei wario ar gyflenwyr yng Nghymru

Cyfanswm effaith GVA o **£971 miliwn** (yn cynnwys effeithiau anuniongyrchol ac anwythol)

BT Group yn cyflogi **1 o bob 170 gweithiwr** yn y sector preifat, ac **1 o bob 4 gweithiwr** yn y sectorau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

BT Group yn cynhyrchu'n uniongyrchol **£1 o bob £130** o GVA

BT Group yn cefnogi **1 o bob 70 gweithiwr** yn y sector preifat a **£1 o bob £60** o GVA oherwydd effaith economaidd BT Group

1

2

3

4

5


Effeithiau cenedlaethol

Effaith uniongyrchol

Mae BT Group yn cyflogi cyfanswm o 4,560 o bobl yng Nghymru yn uniongyrchol, a chaiff 48 ychwanegol eu cyflogi fel contractwyr. Cafodd y gweithiwr hyn gwerth cyfanswm o £146 miliwn o gyflogau.

Effaith caffael

BT Group wedi gwario oddeutu £340 miliwn gyda chyflenwyr yng Nghymru yn 2019/20. Yr eitem fwyaf oedd rhaglenni cyfrifiadurol, gwasanaethau ymgynghori a gweithgareddau cysylltiedig, a nodir yn y siart isod.



- **£255m** ar raglennu cyfrifiadurol, ymgynghoriaeth a gweithgareddau cysylltiedig
- **£45m** ar weithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill
- **£11m** ar weithgareddau cyfrifo, cadw llyfrau ac archwilio; ymgynghoriaeth ar drethi
- **£9m** telathrebu
- **£4m** ar gynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu pŵer trydanol
- £16m** ar wasanaethau a nwyddau gyda sectorau eraill


Ffigur 4-41: Y pum sector cyflenwi uchaf yng Nghymru yn ôl gwerth gwariant

Ffynhonnell: Data Caffael BT Group

4

Gwariant BT Group gyda chyflenwyr yn arwain at fuddion sylweddol i economi Cymru (yn cynnwys buddion canlyniadol neu luosydd yn deillio o wariant cyflenwyr). Crynhoir isod.

Gwariant Cadwyni Cyflenwi BT Group yng Nghymru = £340 miliwn



Ffigwr 4-42: Effeithiau cadwyni cyflenwi anuniongyrchol yng Nghymru


Ffynhonnell: Hatch

4

Effaith gwariant gan y gweithwyr

Enillodd gweithwyr BT Group a chontractwyr sy'n byw yng Nghymru £164 miliwn yn 2019/20. Yn ei dro, mae eu gwariant yn creu cyflogaeth ac allbwn pellach mewn diwydiannau defnyddwyr yng Nghymru. Mae **Ffigwr 4-43** isod yn dangos y gyflogaeth a'r allbwn a ysgogir yn ehangach a'r allbwn a gynhaliwyd drwy wariant y gweithwyr hyn.

Cyflogau gweithwyr & contractwyr BT Group = £164 miliwn




Ffigwr 4-43: Effeithiau a ysgogir (gwariant ar gyflogau) yng Nghymru

Ffynhonnell: Hatch

4

Yr effaith gyffredinol yng Nghymru

Mae cyfuno effaith uniongyrchol a chyflogaeth BT Group â'r effaith anuniongyrchol ar y gadwyn gyflenwi ac effaith gwariant ar gyflog a ysgogir yn creu cyfanswm effaith gweithrediadau'r cwmni yng Nghymru. Gweler crynodeb o hyn **Ffigwr 4-44** isod.



Ffigwr 4-44: Cyfanswm effaith BT Group plc yng Nghymru

Ffynhonnell: Hatch

Effeithiau is-genedlaethol

Tabl 4-20 isod yn dangos effaith economaidd BT Group mewn pedwar rhanbarth allweddol yng Nghymru.

	Gweithwyr a chontractwyr BT Group		Effaith gyffredinol		
	Gweithio yn yr ardal	Byw yn yr ardal	Cyflogaeth	Allbwn £ miliwn	GYC £ miliwn
De Ddwyrain Cymru	2,830	2,980	9,160	1,180	704
De Orllewin Cymru	992	1,060	1,110	185	106
Gogledd Cymru	573	746	1,690	228	136
Canolbarth Cymru	213	267	217	45	26

Tabl 4-20: Effeithiau rhanbarthol yng Nghymru

Ffynhonnell: Hatch

5

Atodiadau technegol

5 Atodiadau technegol

Yma, gweler y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effaith economaidd BT Group a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd.

Diffiniadau

Ceir tair ffynhonnell effaith economaidd mae cwmni fel BT Group yn eu cynhyrchu.

Effeithiau uniongyrchol

Dyma'r effeithiau sy'n deillio o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau'r cwmni, ar ffurf allbwn a chreu cyfoeth, cyflogaeth yn y cwmni ac incwm cyflogaeth cysylltiedig.

Effeithiau anuniongyrchol

Gelwir y rhain hefyd yn effaith y gadwyn gyflenwi. Mae'r cyfraniad hwn yn deillio o'r nwyddau a'r gwasanaethau mae BT Group yn eu prynu gan gyflenwyr yn y DU sydd, yn eu tro, yn prynu mwy oddi wrth eu cyflenwyr, ac yn y blaen. Mae'r gadwyn hon o wariant caffael sy'n deillio o chwistrelliad gwariant cychwynnol BT Group yn creu mwy o gyfoeth ac yn cynnal swyddi ac incwm.

Effeithiau a ysgogir

Mae gweithgareddau economaidd a chyflogaeth bellach yn cael eu creu wrth i weithwyr BT Group a'r rheiny, y mae eu swyddi'n dibynnu ar effeithiau'r gadwyn gyflenwi, wario eu cyflogau ar nwyddau a gwasanaethau.

Cyfeirir at effeithiau economaidd y gwariant hwn gan ddefnyddwyr fel yr effaith a ysgogir.

Gydol yr adroddiad, caiff yr effeithiau hyn eu mesur gan ddefnyddio pedwar dangosydd allweddol:

Allbwn

Mae hwn yn cyfeirio at y refeniw trosiant/gwerthiant a gynhyrchir yn uniongyrchol o fewn BT Group neu o fewn cwmnïau eraill yn yr economi trwy effeithiau anuniongyrchol a'r rheiny a ysgogir.

Gwerth ychwanegol crynswth (GYC)

Dyma'r mesur allweddol o greu cyfoeth o fewn economi ac mae'r llywodraeth yn ei ddefnyddio i fonitro perfformiad economaidd. Mae'n cyfeirio at y gwerth gweddilliol a greir gan gwmnïau unwaith y bydd costau nad ydynt yn rhai llafur wedi eu talu, ac yna caiff ei ddosbarthu i berchnogion/cyfranddallwyr ar ffurf elw ac i weithwyr trwy eu cyflogau. Caiff ei fesur mewn dwy ffordd:

- **GYC** = trosiant namyn y nwyddau a'r gwasanaethau a gaiff eu prynu i mewn (a elwir y dull cynhyrchu)
- **GYC** = elw gweithredol + dibrisiant ac amorteiddio + trethi namyn unrhyw gymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu + taliadau i weithwyr (h.y. cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol) (a elwir y dull incwm)

Cyflogaeth

Dyma nifer y swyddi sy'n cael eu cynnal gan weithgareddau BT Group. Gan fod y swyddi hyn yn gymysgedd o swyddi llawn amser a rhan amser, gydol yr adroddiad rydym yn cyfeirio at swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI), er mwyn mynegi pob swydd mewn termau cyffredin.

Incwm cyflogaeth

Dyma'r cyflogau crynswth a delir i weithwyr y mae BT Group yn eu cynnal, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn, a threthi Talu Wrth Ennill.

5

Methodoleg a ffynonellau data

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effeithiau economaidd BT Group ar gyfer 2019/20 wedi'i chynllunio i fod yn gyson ag adroddiadau blaenorol. Gweler rhagor o wybodaeth isod.

Effeithiau uniongyrchol

Y ddwy ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i amcangyfrif hyn yw cyfrifon ariannol BT Group ar gyfer 2019/20 a chronfa ddata Adnoddau Dynol BT Group.

Cymerwyd **allbwn** yn uniongyrchol o'r cyfrifon, fel refeniw gan gwsmeriaid allanol yn y DU. Mae hwn yn tynnu allan refeniw mewnol sy'n deillio o drosglwyddiadau mewnol rhwng cwmnïau BT Group ac unrhyw werthiant a wneir y tu hwnt i'r DU.

Mae **GYC** wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull incwm, fel y swm o elw gweithredu crynswth cyn treth, llog, dibrisiant ac amorteiddio, a thalu'r gweithlu. Rydym wedi amcangyfrif yr elw gweithredol crynswth ar gyfer y DU gan ddefnyddio EBITDA* byd eang y cyfrifon, ac amcangyfrif cyfran y DU drwy gyfrifo faint yw cyfran y DU o'r holl refeniw. Amcangyfrifwyd y swm a delir i'r gweithlu gan ddefnyddio data ar gyflogau crynswth (ffynhonnell - BT Group), ynghyd â chostau nawdd cymdeithasol (ffynhonnell BT Group).

* Enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio

Cyrchwyd y niferoedd a **gyflogir** o gipolwg o'r wybodaeth a ddarparwyd gan BT Group, ynghyd â data ar nifer y bobl a gyflogir yn uniongyrchol gan BT Group a nifer y contractwyr a gyflogir drwy asiantaethau, a'r oriau maent yn eu gweithio dan gytundeb. Mae'r rhain wedyn wedi'u mynegi ar ffurf CALL ar y sail bod un swydd lawn amser yn cyfateb i 37.5 awr yr wythnos. Mae'r data'n nodi lle mae pawb a gyflogir yn byw ac yn gweithio. Ar gyfer cyflogaeth uniongyrchol, rydym wedi defnyddio ffigurau yn y gweithle. Mae'r niferoedd a gyflogir yn gyson â'r rheiny yng nghyfrifon blyneddol 2019/20.

Darparodd BT Group god post cartref a gweithle ar gyfer pob gweithiwr. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i ddyrannu gweithwyr fesul rhanbarthau ac awdurdodau lleol ar gyfer y dadansoddiad sy'n seiliedig ar le mae'r gweithiwr yn byw ac yn gweithio. Nid oedd cod post cartref ar gael ar gyfer staff asiantaeth a chontractwyr. Y rhagdybiaeth oedd bod yr aelodau staff hyn yn byw yn yr un awdurdod lleol a rhanbarth â'u gweithle.

Darparodd BT Group wybodaeth am staff contractwyr.

Amcangyfrifwyd **incwm cyflogaeth** gan ddefnyddio data gan BT Group, drwy ddefnyddio cyflogau crynswth gweithwyr a chontractwyr fesul gweithle, eto wedi'i addasu i fod yn gyson â'r bil cyflogau cyfartalog a ddyfynnir yn y cyfrifon yn yr un modd â'r hyn a wnaed ar gyfer niferoedd cyflogaeth.

Effeithiau anuniongyrchol

Darparwyd y ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effeithiau anuniongyrchol gan BT Group yn ôl lleoliad a sector. Dyrannwyd pob cyflenwr i BT Group fesul rhanbarth ac awdurdod lleol ar sail y cyfeiriad anfonebu. Yna dyrannwyd cyflenwyr i sectorau gan ddefnyddio'r broses ganlynol:

- Sicrhawyd bod pob cyflenwr yn cyfateb i Gronfa Ddata Tŷ'r Cwmnïau. Mae hyn yn darparu'r sector ar gyfer pob cyflenwr â chod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid.

Gan fod gwariant ar staff ar gytundebau a staff o asiantaethau'n rhan o elfen gyflogaeth yr asesiad effaith uniongyrchol, mae holl wariant ar asiantaethau cyflogaeth wedi'i dynnu oddi wrth y dadansoddiad o wariant ar gyflenwr, er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith.

Amcangyfrifwyd yr effeithiau gan ddefnyddio tablau mewnbwn-allbwn Hatch Urban Solutions' ar gyfer y DU a'r rhanbarthau.

Effeithiau a ysgogir

Defnyddiwyd data ar gyflogau a chyflogau gweithwyr BT Group a chontractwyr yn ôl lleoliad eu cartrefi i gyfrifo effeithiau a ysgogir, ynghyd ag incwm cyflogaeth gweithwyr anuniongyrchol a amcangyfrifir uchod.

Y dimensiwn rhanbarthol a lleol

Amcangyfrif effeithiau rhanbarthol a lleol

Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer cyn-Ranbarthau Swyddfa'r Llywodraeth yn ogystal â Phartneriaeth Menter Leol (PML). Lle bynnag bo hynny'n bosibl, mae hyn wedi bod yn seiliedig ar ddata gwirioneddol ar gyfer yr ardaloedd hyn, ond pan nad yw'r data hwn ar gael, rydym wedi dosrannu canlyniadau i ardaloedd lleol gan ddefnyddio ffactorau dosrannu addas, a gyrchwyd o ddata arall BT Group. Felly dylid cofio hyn wrth ddehongli canlyniadau ar y lefelau daearyddol hyn.

Effaith y Pencadlys

Yn aml, caiff contractau caffael cenedlaethol eu dyrannu i leoliad yn unol â chyfeiriad pencadlys y cyflenwr. Fodd bynnag, mae'n bosibl y darperir y gwasanaethau hyn o gyfres o leoliadau ledled y wlad mewn gwirionedd. Gall y broses ddyrannu'r gwariant caffael hon i leoliad y pencadlys, yn hytrach na lleoliad y depo lle mae gweithgarwch yn digwydd, roi'r argraff mai yn lleoliad y pencadlys mae'r effaith economaidd, yn hytrach na mewn mannau eraill. Rydym wedi defnyddio'r dull hwn fel y gwnaed ar gyfer asesiad y flwyddyn flaenorol. Mae'n golygu y gall y canlyniadau sy'n ymwneud ag effeithiau anuniongyrchol yn benodol fod ychydig yn gamarweiniol, yn enwedig ar lefel leol.

Meincnodi'r canlyniadau

Mae'r adroddiad yn gosod y canlyniadau allweddol yn eu cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach, er mwyn dangos graddfa gymharol cyfraniad BT Group i'r economi leol, ranbarthol a chenedlaethol. I wneud hyn, rydym wedi cyrchu ystadegau a gyhoeddwyd yn genedlaethol. Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

1. Cyfanswm y gweithwyr cyflogedig: Cyfanswm nifer y bobl a gyflogir gan bob busnes sy'n gweithredu yn yr ardal. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n berchen ar eu busnesau eu hunain ac fe'i cyflwynir fel gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (nid yw'n cynnwys yr hunangyflogedig). (Ffynhonnell: ONS, BRES, 2018).

2. Cyfanswm gweithwyr y sector TG a chyfathrebu mewn cyflogaeth: Cyfanswm nifer y bobl a gyflogir gan fusnesau TGCh sy'n gweithredu yn yr ardal. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n berchen ar eu busnesau eu hunain ac fe'i cyflwynir fel gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (nid yw'n cynnwys yr hunangyflogedig). (Ffynhonnell: ONS, BRES, 2018).

3. Cyfanswm gweithwyr y sector preifat mewn cyflogaeth: Cyfanswm nifer y bobl a gyflogir gan fusnesau'r sector preifat sy'n gweithredu yn yr ardal. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n berchen ar eu busnesau eu hunain ac fe'i cyflwynir fel gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (nid yw'n cynnwys yr hunangyflogedig). (Ffynhonnell: ONS, BRES, 2018).

4. Cyfanswm enillion crynswth gan bob preswlydd cyflogedig:

Canfuwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio cyfanswm nifer y preswylwyr mewn cyflogaeth (ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, 2019) wedi'i luosi â'r tâl blynnyddol crynswth cyfartalog ar gyfer pob gweithiwr yn yr ardal ddaearyddol honno (ffynhonnell: Arolwg blynnyddol o oriau ac enillion, 2019).

5. Cyfanswm enillion crynswth gan bob gweithiwr cyflogedig:

Canfuwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio cyfanswm nifer y bobl a gyflogir gan fusnesau yn yr ardal (ffynhonnell: BRES, 2018) wedi'i luosi â'r tâl blynnyddol crynswth cyfartalog ar gyfer yr holl weithwyr yn yr ardal ddaearyddol honno (ffynhonnell: Arolwg blynnyddol o oriau ac enillion, 2019).

6. Cyfanswm GYC - Cyfanswm gwerth ychwanegol crynswth a gynhyrchir gan fusnesau yn yr ardal:

Darparwyd data GYC ar gyfer rhanbarthau ac ardaloedd PML dethol (ffynhonnell: ONS, GYC yn y Gweithle ar sail Prisiau Sylfaenol Cyfredol, 2018 ac ONS, GYC ar gyfer Partneriaethau Menter Lleol, 1998-2018).

Swyddfeydd byd-eang

Darperir y gwasanaethau a ddisgrifir yn y cyhoeddiad hwn yn amodol ar stociau a gellir eu newid o bryd i'w gilydd. Darperir gwasanaethau ac offer yn amodol ar amodau contract safonol perthnasol British Telecommunications plc. Nid oes unrhyw beth yn y cyhoeddiad hwn yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw contract. © British Telecommunications plc 2020.

Swyddfa gofrestredig: 81 Newgate Street, London EC1A 7AJ. Cofrestrwyd yn Lloegr rhif 1800000. Dyluniwyd gan Strata

